# Pam Cofio?

**Pwyntiau trafod:**

**Pam ein bod yn cofio am Hedd Wyn neu Ellis Humphrey Evans?**

**Ydy'n bwysig parhau i gofio am rhywun fu farw dros ganrif yn ôl?**



**Sut y dylem gofio?**

Ydy'r gofeb ym mhentref Trawsfynydd yn addas?

Cofeb -

i fardd?

i fugail?

i filwr?

*Nid â'n ango*
*Ei aberth nid â heibio, - ei wyneb*
*Annwyl nid â'n ango,*
*Er i'r Almaen ystaenio*
*Ei dwrn dur yn ei waed o.*

Englyn o waith Hedd Wyn ei hun sydd ar y gofeb yn Nhrawsfynydd. Ond mae'n eironig mai cyfansoddi'r englyn i goffau ffrind iddo, D.O. Evans, a wnaeth Hedd Wyn, ond i'r englyn gael ei ddefnyddio bellach yn goffâd i'r bardd ei hun.

## Y Gofeb

Cafodd y gofeb ei chreu allan o efydd gan gerflunydd o Lundain - **L.S. Merrifield**.

Bu Merrifield yn gyfrifol am greu sawl cofeb ryfel, chwiliwch am ddelweddau o'i waith.

Cymharwch gofeb Hedd Wyn, gyda rhai o gofebau rhyfel eraill y cerflunydd. Oes yna bethau sy'n debyg? Oes yna bethau sy'n wahanol?



**A wyddoch chi am ffyrdd eraill y cafodd ac y mae Hedd Wyn yn cael ei gofio?**
**Ai dim ond yng Nghymru y caiff Hedd Wyn ei gofio?**
**Beth yw'r cysylltiad rhwng Hedd Wyn a phentref Hagebos, Fflandrys?**

## Cofio'r Arwr

Wedi iddi ddod yn amlwg fod Hedd Wyn wedi ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Penbedw 1917, ac yntau wedi ei ladd yn y ffosydd, roedd teimladau cryf iawn ymysg pobl Trawsfynydd. Roedden nhw ac eraill ar hyd ag ar led Cymru yn credu bod yn rhaid cadw'r cof yn fyw am arwr Trawsfynydd. Bu nifer o gyfarfodydd i drefnu codi cofeb iddo yn y pentref. Dyma englyn gan Gwilym Deudraeth * sy'n nodi'r teimladau:

*Gwnawn dŵr i filwr o fardd - yn ei Lan*
*Eleni heb wahardd;*
*Pwy warafun i'n Prifardd*
*Fu yn y rheng fynor hardd?*

## Dadorchuddio'r Gofeb

Cafodd y gofeb ei dadorchuddio gan Mary Evans, mam Ellis Humphrey Evans ar Awst 11, 1923. Roedd tyrfa fawr wedi dod i Drawsfynydd i fod yn rhan o'r digwyddiad, gan fod Hedd Wyn, Bardd y Gadair Ddu wedi dod yn ffigwr poblogaidd, a'i stori drasig wedi tanio dychymyg pobl Cymru.

Nodwyd mai teyrnged i ŵr ifanc arbennig oedd y gofeb, gŵr ifanc er na chafodd ond ychydig o addysg, a weithiodd yn galed i ddatblygu ei ddawn arbennig fel bardd. Roedd teimlad o falchder am gamp arbennig Hedd Wyn yn gryf ymysg pobl y fro a Chymru gyfan. Ond nid yw'r balchder hwnnw wedi diflannu chwaith. Mae Hedd Wyn yn parhau i danio dychymyg ac i ysbrydoli pobl hyd heddiw.




Gweler Tudalen 297 *Gwae Fi Fy Myw*, Alan Llwyd, am fwy o fanylion am y penderfyniad i godi cerflun i'r bardd.
* *Gweler Gwae Fi Fy Myw*, Alan Llwyd, T.270.
Hefyd Y Brython, Medi 20, 1917, Tudalen 2.
Teyrnged Trawsfynydd:
https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/4018720/4018722/9/Teyrnged%20Trawsfynydd (Y Brython)
Manylion am y Cerdyn Post - Cof Gerdyn Hedd Wyn
https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/4018838/4018842/23/Y%20Brython%20AND%20Cof%20Gerdyn%20Hedd%20Wyn


## Dy arwr di

I bwy fyddet ti'n codi cerflun? Pam?
Oes yna gerfluniau sy'n dal i sefyll yng Nghymru, na ddylen fod yno?
Rho feithiau i gefnogi dy farn.


Yr Ysgwrn
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Supported by The National Lottery® through the Heritage Lottery Fund
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Snowdonia National Park